# Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Ceredigion ‘Siarad, Gwrando a Gweithio gyda’n Gilydd’

## Adroddiad Blynyddol

## 2023-2024



**This document is also available in English**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Awdur: CM, Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Deiliad Portffolio: Cyng Matthew Vaux

# Ymgysylltu a Chyfranogi Ceredigion
# Adroddiad Blynyddol
# 2023-2024

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan y Cyngor yn ystod 2023-24 i gyflawni ein Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi.

**Pam Ymgysylltu?**

Mabwysiadom ein Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi ym mis Hydref 2022. Mae'n nodi sut y byddwn yn siarad gyda ac yn gwrando ar bawb sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yng Ngheredigion, gan gynnwys pobl nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Mae'n bwysig ein bod yn gwrando ar bobl yng Ngheredigion er mwyn clywed eu gweledigaeth nhw ar gyfer eu cymunedau a'r hyn y maent yn ei ddymuno o ran darparu gwasanaethau.

Nodir ein dyletswydd gyfreithiol i ymgynghori mewn darnau amrywiol o ddeddfwriaeth, gan gynnwys:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – rhaid i'r Cyngor gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau Llesiant Cenedlaethol.
- **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2023 –** rhaid i'r Cyngor annog cyfranogiad y cyhoedd yn ein penderfyniadau ac ymgynghori â phobl leol am y graddau y mae'r cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd effeithiol.
- **Mesur y Gymraeg 2011** – rhaid i'r Cyngor ofyn i'r cyhoedd am eu barn ar yr effaith y bydd ein penderfyniadau yn ei chael ar yr Iaith Gymraeg.
- **Deddf Cydraddoldeb 2010** – rhaid i'r Cyngor gynnwys ac ymgysylltu â phobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig.
- **Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996** – rhaid i'r Cyngor ymgynghori â sefydliadau a bennir yn y Rheoliadau a rhaid iddynt hysbysu pobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan orchymyn traffig.
- **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013** – rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion sy'n amlinellu'r egwyddorion y dylid eu hystyried wrth gynnig gwneud newidiadau i ddarpariaeth ysgolion.

Nid yw'n ymwneud â'n dyletswydd gyfreithiol yn unig, fodd bynnag. Mae ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn rhoi gwell gwybodaeth i ni i helpu i wneud penderfyniadau. Gall hyn arwain at ganlyniadau gwell i'n trigolion.

**Beth yw Cyfranogi?**
Mae cyfranogi yn ddull gweithredu er mwyn annog y cam o gynnwys pobl mewn prosiect, rhaglen neu weithgarwch mewn ffordd weithredol. Gall hyn amrywio o ymgysylltu i ymgynghori a chydweithio a grymuso.

**Beth yw Ymgysylltu?**
Efallai y byddwn yn cynnal ymgyrch ymgysylltu benodol i gasglu safbwyntiau ychwanegol cyn datblygu cynllun neu brosiect newydd sy'n arwain at newid i wasanaeth.

**Beth yw Ymgynghori?**
Fel arfer, defnyddir ymgynghoriadau i gasglu barn pobl am gynllun neu brosiect drafft a ddatblygwyd gennym, yn enwedig pan fydd yn arwain at newid i'r gwasanaeth.

Cwblhawyd un ar ddeg o ymgyrchoedd ymgysylltu a deuddeg o ymgyrchoedd ymgynghori yn ystod 2023-24. Mae Adran 2 yr adroddiad hwn yn cynnwys mwy o fanylion. Mae hyn yn ein helpu i gadw dull gweithredu cyson pan ddatblygir yr ymgyrchoedd gan y timau amrywiol ar draws y cyngor.

Byddwn yn sicrhau hefyd y defnyddir canlyniadau ymgyrchoedd i gyfrannu at benderfyniadau a wneir gan Aelodau Etholedig. Yn ystod 2023-24, roedd y Cabinet a'r Cyngor llawn wedi gwneud un ar ddeg penderfyniad a arweiniodd at newidiadau i wasanaeth, polisi neu strategaeth, a fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar y cyhoedd. Mae swyddogion y Cyngor yn paratoi adroddiad i Aelodau Etholedig er mwyn helpu i gyfrannu at eu penderfyniadau. Roedd 100% o'r adroddiadau yr oedd gofyn gwneud y math hwn o benderfyniad amdanynt yn cynnwys crynodeb o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd er mwyn helpu i ddatblygu'r newid arfaethedig. Gellir gweld manylion yn yr adroddiad perthnasol i'r Cabinet neu'r Cyngor, a chyhoeddir y rhain i gyd ar ein gwefan.

Rydym wedi mabwysiadu dull 'ymgysylltu parhaus' wrth ddatblygu ein gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid penodol. Er enghraifft, Cyngor Ieuenctid Ceredigion, y Fforwm Anabledd, Partneriaeth Natur Leol a'r fforwm Gofalwyr. Mae hwn yn rhan o'n dull gweithredu wrth ymgysylltu a chyfranogi. Mae'n rhoi cychwyn cadarn i ni pan fyddwn yn datblygu gwasanaethau a strategaethau newydd gan ein bod wedi bod yn siarad yn rheolaidd gyda'r bobl sydd â phrofiad o'r pwnc.

Mae ein Pecyn Cymorth Ymgysylltu newydd yn rhestru'r rhanddeiliaid gorfodol y mae'n rhaid iddynt gael gwybodaeth am ymgynghoriadau cyhoeddus. Mae'r rhestr yn cynnwys Aelodau Etholedig, y Grŵp Arwain, Cynghorau Tref a Chymuned, staff Cyngor Sir Ceredigion ac aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Mae'r pecyn cymorth hefyd yn rhestru manylion cyswllt pobl sy'n gallu ein helpu i hyrwyddo ein hymgynghoriadau. Er enghraifft, Rhwydwaith Canolfannau Teuluoedd Ceredigion, clybiau Ffermwyr Ifanc a Fforwm Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog.

# ADRAN 1

## Cynllun gweithredu:  Cynnydd 2023-24

**Nod 1: Prif ffrydio gwaith ymgysylltu a chyfranogi effeithiol ar draws Cyngor Sir Ceredigion**

| Cam Gweithredu | Cynnydd | Cyfrifoldeb | Statws COG |
|---|---|---|---|
| Datblygu pecyn adnoddau Ymgysylltu a rhoi hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio i bob Rheolwr Corfforaethol. | Datblygwyd y pecyn cymorth ac mae ar gael i'r holl staff ei lawrlwytho o'n gwefan fewnol.  Rhoddwyd sesiwn am ei ddefnyddio i Reolwyr Corfforaethol ym mis Tachwedd 2023. | Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant | **Gwyrdd** ar y trywydd iawn |
| Cadw amserlen o ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu a gyflawnir gan holl Wasanaethau'r Cyngor. | Mae'r amserlen  yn cael ei chadw gan y tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant a bydd yn cael ei diweddaru'n barhaus. | Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant | **Gwyrdd** wedi'i gwblhau |
| Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu i fonitro'r datblygiadau wrth i ni newid sut rydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd. | Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad ar gyfer 2023-24.  Caiff yr adroddiad ei graffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol cyn ei gyhoeddi ar ein gwefan. | Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant | **Gwyrdd** ar y trywydd iawn |

**Nod 2: Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau**

| Cam Gweithredu | Cynnydd | Cyfrifoldeb | Statws COG |
|---|---|---|---|
| Adolygu a diweddaru ein rhestr o grwpiau Rhanddeiliaid. | Adolygwyd a diweddarwyd y rhestr yn ôl yr angen. Mae'n rhan o'r pecyn cymorth Ymgysylltu ac mae ar gael i holl staff y Cyngor. | Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant | **Gwyrdd** wedi'i gwblhau |
| Datblygu'r defnydd o lwyfannau ymgysylltu ar-lein a pharhau i ddefnyddio dulliau ymgysylltu nad ydynt yn ddigidol. | Caiff y dudalen Ymgysylltu ac Ymgynghoriadau ar y we ei diweddaru yn barhaus.<br><br>Lansiwyd Fy Nghyfrif ym mis Mawrth 2024. Cynlluniwyd y gwasanaeth cyfrif cwsmer ar-lein newydd hwn i wella'r gweithgarwch cyfathrebu gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 366 o bobl wedi cofrestru i gael eu diweddaru am ymgynghoriadau Cyngor Ceredigion trwy gyfrwng Fy Nghyfrif. Byddwn yn datblygu'r llwyfan ar-lein hwn yn ystod 2024-25.<br><br>Mae dulliau ymgysylltu nad ydynt yn rhai digidol yn cael eu defnyddio o hyd. O wneud cais, mae copïau papur o arolygon ar gael gan ein Llyfrgelloedd a'n Canolfannau Hamdden/Llesiant a chaiff posteri eu creu i hyrwyddo ein hymgyrchoedd. Cynhelir grwpiau ffocws a sesiynau galw heibio pan fo hynny'n briodol. Mae'r presenoldeb yn y rhain yn aml yn isel, ond mae ansawdd y wybodaeth a gesglir yn uchel. | Pob Rheolwr Corfforaethol | **Oren** rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud |
| Gwella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rheini sydd wedi cymryd rhan yn ein hymarferion ymgysylltu. | Amlinellir dull adborth cyson yn y pecyn cymorth Ymgysylltu. Amlygir pwysigrwydd adborth ymhellach mewn hyfforddiant ynghylch defnyddio'r pecyn cymorth. | Pob Rheolwr Corfforaethol | **Oren** rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud |

**Nod 3: Bodloni ein cyfrifoldebau a'n dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth**

| Cam Gweithredu | Cynnydd | Cyfrifoldeb | Statws COG |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod mecanwaith ar waith fel bod y cyhoedd yn gallu mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn bersonol neu o bell drwy system gyfarfod hybrid. | Cyflwynwyd y protocol drafft ynghylch Presenoldeb mewn Cyfarfodydd aml-leoliad yr Awdurdod Lleol a Darllediadau Electronig Cyfarfodydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 09/06/2023 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 26/10/23. | Gwasanaethau Democrataidd | **Gwyrdd** wedi'i gwblhau |
| Diwygio a diweddaru ein hofferyn Asesu Effaith Integredig (AEI) | Cyflwynwyd yr offeryn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ac fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet. Rhoddwyd sesiwn hyfforddiant i Reolwyr Corfforaethol ym mis Medi 2023 ac i Aelodau Etholedig ym mis Hydref 2023.<br>Mae swyddogion wedi bod yn ei ddefnyddio er 1 Rhagfyr 2023. | Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant | **Gwyrdd** wedi'i gwblhau |
| Sefydlu system e-ddeisebau  a chyhoeddi protocol sy'n  nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â deisebau ac ymateb iddynt. | Rhestrir y Protocol Deisebau dan Rhan 5 (Codau a Phrotocolau) cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion.  Mae'r cyfansoddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor – Cyfansoddiad y Cyngor – Cyngor Sir Ceredigion.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad am ddiwygiadau i'r protocol, gan gynnwys e-ddeisebau, i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Medi 2023 ac i gyfarfod y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2023.  Mae'r Protocol Deisebau diwygiedig bellach wedi cael ei gymeradwyo a disodlwyd y ddogfen bresennol yng Nghyfansoddiad y Cyngor gyda'r protocol diwygiedig. | Gwasanaethau Democrataidd | **Gwyrdd** wedi'i gwblhau |

**Nod 4: Cadw llygad ar y datblygiadau a'r arferion gorau diweddaraf ym maes ymgysylltu**

| Cam Gweithredu | Cynnydd | Cyfrifoldeb | Statws COG |
|---|---|---|---|
| Adolygu a diwygio Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Cyngor Sir Ceredigion | Cyhoeddwyd y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi cyfredol ym mis Hydref 2022. Bydd yn cael ei adolygu yn 2025, neu cyn hynny os bydd angen. | Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant | **Gwyrdd** ar y trywydd iawn |
| Sicrhau bod y pecyn cymorth ymgysylltu yn gyfredol fel y gall pob aelod o staff ei ddefnyddio. | Cyhoeddwyd y pecyn cymorth ymgysylltu newydd ar ein gwefan fewnol ym mis Ionawr 2024. Fe'i diweddarwyd ym mis Chwefror 2024 yn dilyn awgrym a wnaethpwyd gan Fforwm Ieuenctid Ceredigion. Byddwn yn parhau i'w ddiweddaru yn ôl yr angen. | Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant | **Gwyrdd** ar y trywydd iawn |
| Cydweithio â'n cydweithwyr ym maes ymgysylltu a chydraddoldeb ledled Cymru. | Mae'r rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn aelod o Grŵp Partneriaeth Cymunedau Dyfeisgar Gofal Cymdeithasol Cymru.<br><br>Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn cael cymorth pwrpasol gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru er mwyn ein helpu i ddatblygu dulliau ymgysylltu a chynnwys ystyrlon, gan symud tuag at gyd-gynhyrchu llawn.<br><br>Rydym hefyd yn cael budd gan ymchwil a gwybodaeth a ddosbarthir gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) a Data Cymru. Mae hyn yn ein helpu i glywed am arfer da a datblygiadau cenedlaethol. | Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant | **Gwyrdd** ar y trywydd iawn |

# ADRAN 2

**Cynhaliwyd un ar ddeg o ymgyrchoedd ymgysylltu yn ystod 2023-24**

**1. Cynlluniau Rheoli ac Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth (Mawrth 2023 – Mawrth 2024)**

Mae ardaloedd cadwraeth yn ardaloedd o werth hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Ymgyrch oedd hwn i gasglu safbwyntiau a gwybodaeth gan breswylwyr lleol a phartïon sydd â diddordeb, megis Cymdeithasau Hanesyddol, er mwyn cyfrannu at y cynlluniau rheoli a'r arfarniadau.

**Nifer yr ymatebion:** 57

**Beth nesaf:** Defnyddiwyd yr ymgysylltiad cychwynnol i gyfrannu at y gwaith o baratoi cynlluniau ac arfarniadau ardaloedd cadwraeth drafft. Bydd gofyn cynnal gweithgarwch ymgynghori pellach cyn iddynt gael eu mabwysiadu.

**2. Darpariaeth Gwasanaethau Dydd a Seibiant (Mawrth – Mehefin 2023)**

Cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaethau hyn fel rhan o'r gwaith o gyflawni Strategaeth Llesiant Gydol Oes y Cyngor. Holwyd barn pobl am y gwasanaethau dydd a seibiant presennol a gofynnwyd iddynt nodi'r hyn yr hoffent ei weld yn y dyfodol.

**Nifer yr ymatebion:** 411

**Beth nesaf:** Cymeradwywyd canlyniadau'r ymgyrch a chynllun gweithredu arfaethedig gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2023. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. Bydd bwrdd rhaglen Llesiant Gydol Oes a Grŵp Strategol Ceredigion Iachach yn sicrhau y cyflawnir y cynllun gweithredu.

**3. Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 (Mai – Gorffennaf 2023)**

Ymarfer canfod ffeithiau rhanbarthol yn holi barn y cyhoedd am gyflwr cydraddoldeb yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys. Cyflwynwyd adroddiad am yr ymgyrch ymgysylltu i'r Cabinet ym mis Hydref 2023.

**Nifer yr ymatebion:** 224

**Beth nesaf:** Defnyddiwyd yr ymatebion i ysgrifennu drafft cyntaf Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ceredigion 2024-28. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

**4. Tyfu Canolbarth Cymru – arolwg Sero Net (Awst – Medi 2023)**

Arolwg rhanbarthol i nodi cyfleoedd a sialensiau y mae busnesau yng Nghanolbarth Cymru yn eu hwynebu i leihau eu hallyriadau nwy tŷ gwydr. Rhoddwyd adborth i'r cyhoedd, busnesau a rhanddeiliaid allweddol trwy gyfrwng cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru Ionawr 2024.

**Nifer yr ymatebion:** 78

**Beth nesaf:** Cynhaliwyd digwyddiad busnes ym mis Mawrth 2024 i ledaenu'r canfyddiadau. Defnyddir barn pobl i siapio mentrau cyllido yn y dyfodol, cyfrannu at fuddsoddiadau yn y grid trydan a sicrhau bod cymorth wedi'i deilwra ar gael i fentrau lleol.

**5. Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru – arolwg Cyflogaeth a Sgiliau (Hydref – Rhagfyr 2023)**

Arolwg rhanbarthol i nodi sialensiau recriwtio a sgiliau y mae cyflogwyr a busnesau yng Ngheredigion a Phowys yn eu hwynebu. Hyrwyddwyd yr ymgyrch trwy gyfrwng rhwydweithiau busnes lleol a gwefan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Bwydwyd y canlyniadau yn ôl trwy gyfrwng yr un sianelau.

**Nifer yr ymatebion:** 111 (32 o Geredigion, 70 o Bowys, 9 o weddill Cymru neu y tu allan i Gymru).

**Beth nesaf:** Bydd ymatebion yn cynorthwyo wrth siapio'r gwaith o ddarparu cymorth cyflogadwyedd a sgiliau yng Nghanolbarth Cymru. Trafodir ymatebion yn ystod cyfarfodydd grŵp clwstwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru hefyd

**6. Partneriaeth Natur Leol Ceredigion – Cynllun gweithredu Adfer Natur (Tachwedd 2023 – Mawrth 2024)**

Gofynnwyd i bobl lenwi arolwg ar-lein neu fynychu gweithdy i rannu eu barn a'u hadborth am ddrafft cyntaf Cynllun gweithredu Adfer Natur. Targedwyd yr ymgyrch at sefydliadau, tirfeddianwyr, academyddion, busnesau a'r sector cyhoeddus.

**Nifer yr ymatebion:** 48

**Beth nesaf:** Defnyddiwyd yr ymatebion er mwyn helpu i ddatblygu ail ddrafft Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Bartneriaeth. Cynhelir ymgynghoriad am hwn yn 2024-25.

**7. Partneriaeth Natur Leol Ceredigion – Cefnogaeth ar gyfer Rheoli Dolydd (Rhagfyr 2023 – Ionawr 2024)**

Roedd y Bartneriaeth Natur Leol yn dymuno dysgu mwy am y cymorth ychwanegol y bydd ei angen efallai i adfer a gwella ein cynefinoedd glaswelltir arbennig. Gofynnwyd i bobl lenwi arolwg ar-lein, cymryd rhan mewn cyfweliad strwythuredig neu ymuno â thrafodaeth yn un o gyfarfodydd y Bartneriaeth Natur Leol.

**Nifer yr ymatebion:** 71

**Beth nesaf:** Bydd tîm Bioamrywiaeth Ceredigion yn trefnu cyfarfod gyda rhanddeiliaid ym mis Ebrill 2024 i drafod y camau nesaf.

**8. Canolfan Lles, Aberteifi (Rhagfyr 2023 – Chwefror 2024)**

Gofynnwyd i bobl nodi'r hyn yr hoffent ei weld fel rhan o ddatblygiad Canolfan Llesiant posibl yn Aberteifi i wasanaethu de y sir. Estynnwyd gwahoddiad i bobl ymateb trwy lenwi arolwg ar-lein neu fynychu grŵp ffocws.

**Nifer yr ymatebion:** 417

**Beth nesaf:** Bydd y wybodaeth yn cyfrannu at adroddiad ar gyfer y Cabinet am leoliad arfaethedig ar gyfer Canolfan Llesiant yn Aberteifi a chynnig drafft am y cyfleusterau a'r gwasanaeth y byddai modd ei gynnig.

**9. Arolwg 16+ a dim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant: NEET (Ionawr – Mawrth 2024)**

Anelwyd yr ymgyrch hwn at bobl yng Ngheredigion nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Roeddem yn dymuno cael gwybod mwy am y rhwystrau sy'n eu hatal rhag sicrhau cyflogaeth. Bydd hyn yn helpu'r tîm Cymorth Cyflogaeth i deilwra'r cymorth y maent yn ei gynnig.

**Nifer yr ymatebion:** 6

**Beth nesaf:** Adolygir y dull ymgysylltu. Efallai y cynhelir yr ymgyrch eto er mwyn ceisio cael mwy o ymatebion.

**10. Lles Emosiynol Gofalwyr Di-dâl (Ionawr – Mawrth 2024)**

Anelwyd yr ymgyrch hwn at Ofalwyr di-dâl yn benodol. Roeddem yn dymuno cael gwybod mwy am eu defnydd o'n Canolfannau Hamdden a Llesiant. Bydd hyn yn ein helpu i gynnig gwasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion.

**Nifer yr ymatebion:** 29

**Beth nesaf:** Rhannwyd yr ymatebion gyda'r Tîm Cymorth Cymunedol a Gofalwyr. Ni ddadansoddwyd y data eto. Byddwn yn llunio adroddiad cryno a ffeithlun o'r canlyniadau ac yn rhannu hwn gyda'r cyhoedd.

**11. Tyfu Canolbarth Cymru – Cynllunio Ynni Ardal Leol (Ionawr – Mawrth 2024)**

Gofynnwyd i bobl fynegi eu barn am y defnydd a wneir o drafnidiaeth ac ynni ar hyn o bryd, systemau gwresogi a thechnolegau ynni carbon isel a dewisiadau teithio cynaliadwy. Y nod yw nodi llwybr effeithiol tuag at gyflawni'r targed sero net cenedlaethol.

**Nifer yr ymatebion:** 542

**Beth nesaf:** Cwblhawyd ein Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP) ym mis Mawrth 2024. Fe'i cyflwynir i'r Cabinet ym mis Mai 2024. Mae'r adroddiad yn cynnig y dystiolaeth ofynnol er mwyn helpu i ddatblygu prosiectau i drawsnewid y system ynni i fod yn un sero carbon gydag amser. Caiff barn y bobl i'r arolwg eu cynnwys wrth ddatblygu'r prosiectau hyn. Yn ychwanegol, defnyddir yr LAEP i sicrhau bod Cynllun Ynni Cenedlaethol Cymru yn ystyried anghenion a blaenoriaethau lleol, gan fapio'r galw am ynni a chyflenwad ynni yn y dyfodol ar gyfer pob rhan o'r wlad.

**Cynhaliwyd deuddeg ymgyrch ymgynghori yn ystod 2023-24**

**1. Ailddefnyddio hen adeilad llyfrgell Ceinewydd (Chwefror – Mai 2023)**

Holodd Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau y Cyngor i bobl yng Ngheinewydd yn bennaf a oeddent yn cytuno gyda chynnig i newid diben yr Ymddiriedolaeth hon i "hyrwyddo addysg trigolion Ceinewydd." Yn ogystal, holwyd pobl sut y byddai modd defnyddio safle yr ymddiriedolaeth yn y dyfodol o fewn y diben arfaethedig newydd.

**Nifer yr ymatebion:** 32

**Beth nesaf:** Cyflwynwyd y canlyniadau i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau ym mis Mehefin 2023. Cytunwyd newid y diben fel y cynigiwyd a holi a oes gan unrhyw grŵp neu sefydliad ddiddordeb mewn ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros y safle. Mae 3 wedi mynegi diddordeb ac yn cael eu hystyried. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

**2. Defnydd o arian ymddiriedolaeth elusen 'Hen Ysgol Sir, Tregaron' (Mawrth – Mai 2023)**

Holodd Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau y Cyngor i bobl yn Nhregaron yn bennaf am eu barn ynghylch sut y dylid gwario'r arian a oedd wedi cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth o werthu'r ysgol i hyrwyddo addysg plant cyn ysgol a phlant ysgol yn Nhregaron.

**Nifer yr ymatebion:** 25

**Beth nesaf:** Cyflwynwyd y canlyniadau i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau ym mis Mehefin 2023. Roedd rhan fwyaf yr ymatebion yn ymwneud â chyfleusterau chwaraeon. Caiff penderfyniadau eu gwneud gyda swyddogion o'r Porth Cymorth Cynnar a'r gwasanaethau Ysgolion i archwilio dewisiadau perthnasol. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

**3. Cyfyngiadau 20 milltir yr awr ar ffyrdd y sir (4 i 28 Ebrill 2023)**

Hysbysebwyd y cynigion i newid y terfyn cyflymder ar ffyrdd penodol yn y sir i'r cyhoedd. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gysylltiedig â chynllun Llywodraeth Cymru i ostwng y terfyn cyflymder ar ffyrdd preswyl/lle y ceir goleuadau stryd ym mis Medi 2023.

**Nifer yr ymatebion:** 76

**Beth nesaf:** Cyflwynwyd y canlyniadau i'r Cabinet ym mis Mehefin 2023. Nododd y Cabinet ymateb y swyddogion i'r gwrthwynebiadau, gan gymeradwyo'r cam o lunio a chyhoeddi'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Teimlwyd bod modd cyfiawnhau'r penderfyniad hwn ar y sail eang a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun cenedlaethol hwn. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

**4. Strategaeth Dai Leol – 'Tai i Bawb' (Mai – Mehefin 2023)**

Holwyd pobl a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r weledigaeth, y blaenoriaethau, yr amcanion a'r camau gweithredu a gynigiwyd yn y Strategaeth. Arweiniodd yr ymgynghoriad at wneud rhai newidiadau i fersiwn derfynol y Strategaeth.

**Nifer yr ymatebion:** 40

**Beth nesaf:** Derbyniodd y Cabinet y newidiadau i'r Strategaeth ar 3 Hydref. Rhoddwyd cymeradwyaeth y Cyngor llawn iddi ar 26 Hydref 2023. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

**5. Arolwg Rhanddeiliaid Ceredigion (Mehefin – Awst 2023)**

Gofynnwyd i bobl am adborth ynghylch pa mor dda yr ydym yn rhedeg gwasanaethau'r cyngor ar gyfer pobl Ceredigion. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'n proses hunanasesu flynyddol, ac roedd yr ymatebion wedi cyfrannu at ein hadroddiad hunanasesu ar gyfer 2022-23.

**Nifer yr ymatebion:** 148

**Beth nesaf:** Cymeradwywyd adroddiad Hunanasesu 2022-23 gan y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2023. Fe'i cyflwynwyd i Weinidogion Cymru, Estyn ac Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd. Bellach, cyhoeddwyd yr adroddiad ar ein gwefan ac mae'n cynnwys rhestr o gyfleoedd i sicrhau gwelliant er mwyn i ni roi sylw iddynt.

**6. Premiymau Treth Gyngor ar 2il Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (Medi – Tachwedd 2023)**

Holwyd barn pobl am lefel y premiymau treth gyngor y dylid eu codi ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngheredigion. Hyrwyddwyd yr arolwg ymhlith y cyhoedd yng Ngheredigion a hefyd, ymhlith pobl sy'n berchen ar 2il gartrefi.

**Nifer yr ymatebion:** 1,403

**Beth nesaf:** Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2023. Cytunodd y Cyngor godi'r premiwm treth Gyngor ar eiddo gwag hirdymor o 1 Ebrill 2024, ac y byddai'r codiad yn ddibynnol ar hyd y cyfnod yr oedd yr eiddo wedi bod yn wag. Cytunodd y Cyngor godi'r premiwm treth Gyngor ar 2il gartrefi i 100% o 1 Ebrill 2024 ac i 150% o 1 Ebrill 2025. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

### 7. Polisi Rheoli Harbyrau (Medi – Hydref 2023)

Roedd yr ymgyrch hwn yn agored i'r cyhoedd ac yn targedu pobl sydd â diddordeb yn yr harbyrau yn Aberaeron, Aberystwyth a Cheinewydd. Gofynnwyd i bobl am eu hadborth am y polisi diwygiedig. Rhoddwyd y newyddion diweddaraf i randdeiliaid trwy gyfrwng cyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbyrau a chyhoeddiadau Dyfroedd Tawel. Gwnaethpwyd diwygiadau i'r polisi o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

**Nifer yr ymatebion:** 108

**Beth nesaf:** Cyflwynwyd yr ymatebion a'r polisi diwygiedig i'r Cabinet ym mis Chwefror 2024. Cymeradwyodd y Cabinet y diwygiadau a wnaethpwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad, a chytunodd fabwysiadu'r polisi Rheoli Harbyrau newydd. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

### 8. Ad-drefnu Ysgolion (Medi – Hydref 2023)

Holwyd barn pobl am y cynnig i newid cyfrwng yr iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion cynradd Comins-coch, Llwyn yr Eos, Padarn Sant, Plascrug a Cheinewydd, a chynnig lle rhan-amser i ddisgyblion 3 oed yn ysgolion Comins-coch, Padarn Sant a Cheinewydd.

**Nifer yr ymatebion:** 74 (Ceinewydd: 10 ymateb; Comins-coch: 14 ymateb; Plascrug: 27 ymateb; Llwyn yr Eos: 6 ymateb; Padarn Sant: 11 ymateb). Roedd Cynghorau Ysgol y bum ysgol ac Estyn wedi ymateb hefyd.

**Beth nesaf:** Penderfynodd y Cabinet ddiwygio'r ddarpariaeth iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion cynradd Comins-coch, Llwyn yr Eos, Padarn Sant, Plascrug a Cheinewydd. Yn ogystal, penderfynodd y Cabinet gynnig lle rhan-amser i ddisgyblion 3 oed yn ysgolion cynradd Comins-coch a Phadarn Sant, ond nid yn ysgol gynradd Ceinewydd. Cyhoeddir yr adroddiadau a chofnodion y cyfarfodydd, a gynhaliwyd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2024, ar wefan y Cyngor.

**9. Adolygiad o Orsafoedd Pleidleisio (Hydref – Tachwedd 2023)**

Fel rhan o'r adolygiad hwn, estynnwyd gwahoddiad i bobl roi adborth am eu gorsaf bleidleisio leol, gan gynnwys cyfleusterau parcio, hygyrchedd a'u haddasrwydd yn gyffredinol. Gofynnwyd hefyd i bobl roi adborth am newidiadau i orsafoedd pleidleisio a awgrymwyd gan y Swyddog Canlyniadau.

**Nifer yr ymatebion:** 16

**Beth nesaf:** Trafodwyd adroddiad am y broses ymgynghori a'r newidiadau arfaethedig i orsafoedd pleidleisio yn ystod cyfarfod y Cyngor llawn ym mis Ionawr 2024. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

**10. Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 (Hydref – Rhagfyr 2023)**

Holwyd pobl a oeddent yn teimlo mai'r Amcanion Cydraddoldeb drafft yw'r rhai iawn i Geredigion, ac a fyddai'r cynllun gweithredu drafft yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r amcanion.

**Nifer yr ymatebion:** 59

**Beth nesaf:** Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ym mis Mawrth 2024. Cymeradwywyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 gan y Cabinet. Cyhoeddwyd yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. Cyhoeddir y Cynllun ei hun ar y wefan hefyd, a bydd adroddiad am gynnydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn.

**11. Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Rhagfyr 2023 – Ionawr 2024)**

Nid oedd hwn yn ymgynghoriad cyhoeddus. Llanwyd offeryn asesu Llywodraeth Cymru yn dilyn cyfnod o ymchwil pen desg ac ymgysylltu gydag amrediad o randdeiliaid. Estynnwyd gwahoddiad i randdeiliaid penodol, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, cynrychiolydd datblygwyr preifat, y Gymdeithas Ofal, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Aelodau Etholedig a thimau perthnasol y cyngor i wneud sylwadau am ganfyddiadau'r Asesiad. Arweiniodd eu hadborth nhw at rai newidiadau i'r Asesiad drafft.

**Nifer yr ymatebion:** 18

**Beth nesaf:** Cymeradwyodd y Cabinet yr Asesiad yn ystod ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024. Bydd unrhyw gamau angenrheidiol a fydd yn dilyn yn rhan o'r Strategaeth Dai neu'r Cynllun Datblygu Lleol. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.


**12. Cynllun Trwyddedu ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth (Ionawr – Chwefror 2024)**

Gofynnwyd i bobl am eu hadborth am ansawdd y gwasanaeth a ddarparir gan eu landlord a chan Rhentu Doeth Cymru. Yn ogystal, gofynnwyd iddynt am eu hadborth am y cynllun trwyddedu tai amlfeddiannaeth. Cyfrannodd yr ymatebion at yr adolygiad o'r cynllun trwyddedu presennol, a fydd yn dod i ben ym mis Ebrill 2024.

**Nifer yr ymatebion:** 17


**Beth nesaf:** Trafodwyd yr adolygiad o'r cynllun Trwyddedu Ychwanegol presennol gan y Cabinet ym mis Mawrth 2024. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. Cyhoeddir yr Hysbysiad Cyhoeddus sy'n cynnwys manylion y cynllun ar y wefan hefyd.

**Dadansoddiad o ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori 2023-24**




Roedd bron pob ymgyrch yn ymgyrch canfod ffeithiau, er mwyn cyfrannu at gynllun, strategaeth neu wasanaeth, ond roedd dros hanner ohonynt yn ofynnol yn unol â deddfwriaeth – statudol. Er enghraifft:

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996
- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983





Roedd yr holl ymgyrchoedd ar gael trwy arolwg ar-lein, ac roedd copïau papur yn aml ar gael.

Roedd 8 ymgyrch yn cynnwys grwpiau ffocws neu ddigwyddiadau galw heibio.

Roedd 6 ymgyrch wedi darparu fersiynau Hawdd i'w Darllen o'r wybodaeth ac roedd 5 ymgyrch wedi darparu fersiynau Print Mawr.


Mae Cyngor Ieuenctid Ceredigion wedi awgrymu y gallai fideos fod yn ddull da. Ni roddwyd cynnig ar y ffurf hwn eto.




Defnyddiwyd amrediad o wahanol ddulliau i roi cyhoeddusrwydd i ymgyrchoedd.  Roedd y rhan fwyaf o ymgyrchoedd yn cynnwys 3 neu 4 dull.

Y prif ddulliau a ddefnyddiwyd oedd negeseuon e-bost wedi'u targedu at randdeiliaid penodol, deunydd ar gyfryngau cymdeithasol a datganiad i'r wasg.

Mae sawl un o dimau'r cyngor yn cyfarfod yn rheolaidd gyda grwpiau o randdeiliaid ac mae ganddynt rwydwaith parod o randdeiliaid allweddol.  Defnyddiwyd y rhwydweithiau hyn er mwyn helpu i hyrwyddo ymgyrchoedd.





Adroddodd mwyafrif y swyddogion eu bod wedi rhoi adborth am ganlyniadau eu hymgyrch i'r cyhoedd ac i randdeiliaid a enwyd.

Y prif ddull o roi adborth am y canlyniadau oedd trwy gyfrwng yr adroddiad a baratowyd ar gyfer y Cabinet, sydd ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan.

Roedd nifer fach o ymgyrchoedd wedi gorffen gyda neges benodol i randdeiliaid yn diolch iddynt am gymryd rhan a chan esbonio'r canlyniadau a'r camau nesaf.

Mae hwn yn faes y mae angen ei wella.


Nifer yr ymatebion i ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori 2023-24
Adolygiad o Fannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio yng Ngheredigion
Arolwg Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol
Cefnogaeth ar gyfer Rheoli Dolydd
Ysgolion - cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith a derbyn disgyblion 3 blwydd…
Polisi Rheoli Harbyrau
Lles Emosiynol Gofalwyr Di-dâl
Arolwg 16+ a dim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
Ailddefnyddio hen adeilad llyfrgell Ceinewydd
Defnydd o arian ymddiriedolaeth elusen ‘Hen Ysgol Sir, Tregaron’
Cynlluniau Rheoli ac Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth
Canolfan Lles, Aberteifi
Darpariaeth Gwasanaethau Dydd a Seibiant
Tyfu Canolbarth Cymru – arolwg Sero Net
Rhanbarthol: Cynllunio Ynni Ardal Leol
Asesiad o’r Farchnad Dai Leol 2023
Premiymau Treth Gyngor Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag
Cynllun Gweithredu Adfer Natur
Cyfyngiadau 20mya ar Ffyrdd y Sir
Cynllun Trwyddedu ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth
Strategaeth Dai Lleol - Tai i Bawb
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 - Ymgynghoriad
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 - Ymgysylltiad
Arolwg Rhanddeiliaid Corfforaethol
0
200
400
600
800
1000
1200
1400
1600

## Casgliad

Hwn yw'r ail adroddiad blynyddol am y cynnydd yr ydym wedi'i sicrhau wrth gyflawni polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Ceredigion, sef 'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd'.

Cynhaliwyd 23 o ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod 2023-24. Mae hyn yn saith yn fwy nag a gynhaliwyd y llynedd. Roedd pedwar o'r ymgyrchoedd yn rhai rhanbarthol. Cynhaliwyd tri ohonynt ar ran bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ac roeddent yn cynnwys Ceredigion a Phowys. Roedd yr ymarfer ymgysylltu a gyfrannodd at ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn un rhanbarthol hefyd, ac roedd yn cynnwys Ceredigion, Sir Benfro, Powys a Sir Gaerfyrddin.

Mae nifer yr ymatebion yn dibynnu ar bwnc yr ymgyrch. Gwelwyd nifer uchel iawn o ymatebion i'n hymgynghoriad am lefel y premiymau treth gyngor sy'n daladwy ar 2il gartrefi ac eiddo gwag hirdymor – pwnc cynhyrfiol iawn. I'r gwrthwyneb, dim ond 6 ymateb a gafwyd i'r ymgyrch i nodi rhwystrau y mae pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn eu hwynebu. Roedd yr ymgyrch hwn yn targedu pobl ifanc sy'n NEET, ac mae'r rhain yn grŵp y mae'n cael ei gydnabod yn eang eu bod yn grŵp anodd iawn i ymgysylltu â nhw.

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi symud yn ei flaen yn sylweddol er mis Mawrth 2023, fel y dangosir yn y tabl isod.

| | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|
| Gwyrdd – mae'r gweithredu yn mynd rhagddo fel y disgwyl neu wedi'i gwblhau | 6 | 10 |
| Oren – mae rhywfaint o gynnydd yn cael ei sicrhau | 5 | 2 |
| Coch – ni chaiff unrhyw gynnydd ei sicrhau | 1 | 0 |

Mae'r ddau gam gweithredu Oren (sy'n dangos rhywfaint o gynnydd) yn ymwneud â datblygu llwyfan ymgysylltu ar-lein a gwella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn ein hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori. Mae cynlluniau mewn grym i fwrw ymlaen gyda'r gwaith hwn. Rhagwelwn y bydd yr holl gamau gweithredu yn mynd rhagddynt fel y disgwyl neu wedi cael eu cwblhau erbyn yr adeg pan gynhyrchir y trydydd adroddiad blynyddol, yn ystod y Gwanwyn 2025.

### Gwaith Gwella yn y dyfodol

Bydd llwyfan newydd Fy Nghyfrif yn ein helpu i feithrin ein perthynas ar-lein gyda phobl sydd wedi mynegi diddordeb penodol yn ein hymgynghoriadau. Rydym hefyd yn gweithio ar welliannau i'r dudalen ar y we ynghylch Ymgysylltu ac Ymgynghori, fel y gall pobl weld canlyniadau eu hadborth yn fwy clir.

Adolygir y polisi Ymgysylltu a Chyfranogi yn 2025 ac mae'n debygol y bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys set newydd o gamau gweithredu. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i wella ein harfer.